Adroddiad ar

Cylch Meithrin Maenclochog

Neuadd Gymunedol
Maenclochog
SA66 7LB

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Maenclochog

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Maenclochog |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gfal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Diane Mabe |
| Person â gofal | Sarah Williams |
| Nifer y lleoedd | 15 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 1 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Dydd Iau 8.45 – 12.45 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 12/11/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 19/11/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/05/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles a Gofal** | **Da** |
| **Addysgu, Dysgu a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r PC/UC roddi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Parhau i ddatblygu systemau mwy effeithiol ar gyfer arsylwi ac asesu cynnydd plant a'u defnyddio'n bwrpasol i lywio'r cynllunio

A2 Sicrhau bod gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn arwain yn fwy uniongyrchol at welliannau yn y ddarpariaeth ac ar brofiadau dysgu'r plant

A3 Meithrin partneriaethau mwy effeithiol gyda sefydliadau a phartneriaid allanol er mwyn cyfoethogi profiadau a chyfleoedd plant

A4 Cryfhau'r system newid cewynnau i ddiogelu plant ac ymarferwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Prif Arolygydd ei Fawrhydi Estyn a Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru o'r farn bod angen dilyniant ar y cyd mewn perthynas â'r lleoliad hwn. Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn a/neu AGC yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

### Lles a Gofal: Da

Mae ymdeimlad cartrefol braf o fewn y lleoliad ac mae yna berthynas agos a chefnogol rhwng y plant a'r ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n hapus ac yn sicr wrth gyrraedd ac yn mynd yn syth i chwarae gyda'u ffrindiau neu gyda'r ymarferwyr. Mae bron pob plentyn wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda'r ymarferwyr ac yn gwybod y gallent fynd atynt i ofyn am gymorth neu gysur pan fo angen. Er enghraifft, maent yn aros yn agos i ymarferwyr cyfarwydd pan yn symud o un ardal i'r llall. Mae llawer o blant yn gyfarwydd â threfn y bore ac yn trosglwyddo rhwng y gweithgareddau yn hyderus. Er hynny, mae arferion mynd â phawb i'r tŷ bach yr un pryd yn creu straen di-angen ar ychydig o blant ansicr. O ganlyniad, mae'r cyfnodau yma'n profi i fod yn heriol i rhai o'r plant.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau'n annibynnol, ac yn cymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae yn eu hamser eu hunain. Wrth fynd i fyny'r wal ddringo, maent yn hyderus i ddweud bod ddim angen help llaw arnynt, gan wybod bydd ymarferwyr yn parchu eu barn. Mae ymarferwyr yn symud o gwmpas yr ardaloedd yn unol â dewisiadau'r plant ac wrth law i sgwrsio ac i ymuno'n y chwarae ar wahoddiad y plentyn. Mae hyn yn creu awyrgylch hamddenol, braf, ble mae plant yn cymdeithasu'n hapus gyda'i gilydd, ac yn ymgolli yn eu chwarae.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, ac yn casglu gwybodaeth am eu hanghenion a'u hoffterau unigol cyn iddynt gychwyn mynychu. Maent yn sicrhau eu bod yn cwrdd ac anghenion unigol plant, gan gynnwys y rhai sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn trin pob plentyn gyda thegwch a gofal cytûn. Maent yn gynhwysol iawn wrth sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac mae gweithgareddau fel amser cylch a chyd ddawnsio yn cyfrannu'n effeithiol at hyn.

Mae ymarferwyr yn cefnogi'r plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol cadarn. Maent yn modelu ymddygiad cadarnhaol, yn annog plant i rannu ac yn eu hatgoffa i fod yn garedig gyda'i ffrindiau. Maent yn canmol y rhai sydd yn dangos arferion positif fel cymryd tro i fynd ar y beic. Mae hyn yn arwain at blant sy'n awyddus i gynnwys ffrindiau yn eu chwarae, sy'n ystyried teimladau eraill ac yn dechrau ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda'i gilydd.

## Addysgu, Dysgu a Datblygiad: Digonol

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd bywiog a lliwgar lle mae plant yn mwynhau dysgu drwy chwarae ac yn ymgysylltu'n briodol mewn gweithgareddau pwrpasol. Maent yn cynnig ystod eang o brofiadau addas sy'n annog plant i archwilio, gwneud dewisiadau a datblygu eu medrau mewn cyd-destunau ystyrlon. O ganlyniad, mae llawer o blant yn dangos lefelau da o annibyniaeth wrth ddewis adnoddau a symud rhwng gweithgareddau. Er hyn, ceir adegau lle nad yw ymarferwyr yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth plant i'r eithaf. Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol y plant yn effeithiol, ac mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd wrth chwarae, gan ddechrau deall pwysigrwydd rhannu.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ieithyddol plant yn effeithiol drwy fodelu'r Gymraeg yn gyson yn ystod gweithgareddau a chwarae dyddiol. Maent yn defnyddio adnoddau diddorol, megis llyfrau a phypedau, i ennyn diddordeb plant. Mae hyn yn galluogi datblygiad medrau llafar, gwrando a darllen cynnar y plant yn dda. O oedran cynnar iawn mae plant yn gwahodd oedolion i rannu stori. Mae ymarferwyr yn cyfleu eu mwynhad o lyfrau wrth barhau i ddarllen wedi i'r plentyn symud at weithgaredd arall. Mae cyfleoedd rheolaidd i blant arbrofi gydag offer marcio yn yr ardaloedd dysgu mewnol ac allanol. O ganlyniad, mae llawer o blant yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar priodol wrth iddynt ddefnyddio offer amrywiol i greu marciau wrth chwarae.

Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau a phrofiadau sy'n helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth gynnar o rif drwy chwarae a chanu rhigymau cyfarwydd. Yn yr arfer orau mae oedolion yn ymuno yng ngweithgareddau'r plant, ac yn manteisio ar gyfleoedd digymell i atgyfnerthu'r dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio geirfa fathemategol briodol fel "llawn" a "gwag" a rhifo smotiau ar drychfilod. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn annog plant i ddatrys problemau yn ddigon effeithiol. Maent yn cynnig atebion yn rhy gyflym heb bwyllo i roi amser i blant ystyried syniadau a dod o hyd i ddatrysiad yn annibynnol.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau creadigol a digidol. Mae'r plant ieuengaf yn mwynhau arbrofi gyda phaent, sialc a chreonau i greu gwaith celf lliwgar ac mae gweithgareddau chwarae rôl yn hyrwyddo eu creadigrwydd yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr hefyd yn darparu ystod dda o adnoddau technolegol, gan gynnwys camerâu digidol, gliniadur, allweddell a ffonau symudol. Mae hyn yn helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth gynnar o sut mae technoleg yn rhan o'u bywydau bob dydd ac yn cefnogi eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau corfforol y plant yn gryf. Mae gweithgareddau dawnsio yn annog plant i symud yn hyderus i gerddoriaeth ac yn datblygu

eu cydsymud yn effeithiol. Yn yr ardal allanol, mae'r plant ieuengaf yn dangos brwdfrydedd a hyder wrth gymryd risgiau priodol, er enghraifft wrth ddringo dros offer rhwystrau. Mae'r profiadau hyn yn cefnogi eu datblygiad corfforol a'u hyder i fentro yn llwyddiannus.

Yn yr arfer orau, mae oedolion yn ymuno'n sensitif yng ngweithgareddau'r plant ac yn ymateb yn ofalus i'w diddordebau. Maent yn dechrau dangos hyblygrwydd wrth addasu gweithgareddau a dilyn syniadau'r plant. Mae hyn yn diwallu anghenion y plant ac yn ymestyn eu medrau cymdeithasol, creadigol a chorfforol. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn defnyddio cwestiynu ac adborth yn briodol i gefnogi dysgu. Fodd bynnag, ar adegau mae'r defnydd o gwestiynau caeedig yn cyfyngu ar gyfleoedd i blant ymateb mewn brawddegau estynedig ac i ddatblygu eu medrau llafar yn llawn.

Mae gan ymarferwyr adnabyddiaeth briodol o'r plant a'u cynnydd. Serch hynny, nid ydynt yn cofnodi arsylwadau nac yn defnyddio gwybodaeth asesu yn ddigon cyson i gynllunio'r camau nesaf yn eu datblygiad. O ganlyniad, nid yw gweithgareddau bob amser yn darparu lefel ddigon uchel o her i sicrhau bod pob plentyn yn datblygu eu medrau'n llawn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Gwael

Er gwaethaf cyfnod heriol o ansicrwydd, mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi dangos gwydnwch a phenderfyniad cryf i gynnal a gwella'r ddarpariaeth. Maent yn gweithio'n fwriadus i greu amgylchedd gofalgar sy'n rhoi pwyslais clir ar les, diogelwch a datblygiad y plant drwy chwarae pwrpasol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn meithrin ethos cefnogol lle mae staff yn cydweithio'n fwriadus ac mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae diogelu plant yn cymryd blaenoriaeth yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn gweithredu trefniadau priodol er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y plant, gan gynnwys sicrhau bod y safle'n ddiogel a dilyn gweithdrefnau hylendid addas. Serch hynny, nid yw gweithdrefnau newid cewynnau yn diogelu ymarferwyr a plant yn ddigon effeithiol. Mae arweinwyr yn gweithredu systemau recriwtio diogel. Mae'r holl ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac yn deall eu cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau cywir i ddilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn.

Mae penodiadau diweddar i'r corff rheolaethol wedi cryfhau'r defnydd strategol o gyllid a grantiau. Mae arweinwyr wedi buddsoddi'n synhwyrol mewn adnoddau ac amgylcheddau dysgu sy'n cynnig ystod eang o brofiadau buddiol i'r plant. Ar y cyfan, mae arweinwyr yn manteisio'n briodol ar gyngor ac adborth gan asiantaethau allanol i gefnogi gwelliannau i'r ddarpariaeth, gan gynnwys datblygu'r ardal allanol. Er hyn, nid yw arweinwyr bob amser

yn blaenoriaethu'r meysydd pwysicaf i wella deilliannau'r plant nac yn ymateb yn ddigon effeithiol i'r cyngor a dderbynnir.

O ganlyniad i'r newidiadau diweddar i'r corff rheoli, nid yw ymarferwyr wedi derbyn goruchwyliaeth rheolaidd yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg cefnogaeth ffurfiol i ymarferwyr yn eu rolau ac wrth wneud penderfyniadau cytûn. Am y rhesymau hyn, rydym wedi hysbysu y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r unigolyn cyfrifol roddi sylw iddynt

Mae arweinwyr yn datblygu prosesau hunanwerthuso addas ac yn dechrau defnyddio eu dealltwriaeth o'r ddarpariaeth i adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn yn eu cyfnod cynnar ac nid ydynt eto yn canolbwyntio'n ddigon clir ar fesur effaith ar gynnydd a lles plant. Yn ogystal, nid yw arweinwyr yn cynnwys barn pob rhanddeiliaid yn ddigon effeithiol mewn prosesau hunan werthuso, gyda llais y plentyn a safbwyntiau rhieni yn parhau'n gyfyngedig.

Mae'r lleoliad yn cynnal perthynas gadarnhaol â rhieni ac yn cydweithio'n briodol gydag asiantaethau arbenigol i gefnogi iechyd, lles a datblygiad y plant. Rhennir gwybodaeth ddefnyddiol gyda rhieni drwy sgyrsiau anffurfiol a systemau digidol, ac mae arweinwyr yn cysylltu'n briodol gyda gwasanaethau lleferydd ac ADY pan fo angen cymorth ychwanegol. Er hyn, cyfyngedig yw'r cysylltiadau rhwng y lleoliad a'r gymuned leol sy'n cael effaith ar gyfleoedd i'r plant i feithrin ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned. Yn ogystal, nid yw'r partneriaethau trosglwyddo gyda'r ysgol leol wedi'u datblygu'n ddigon cryf er mwyn i'r plant symud ymlaen yn hyderus i'r cam nesaf yn eu dysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2026